

**COFNODION CYFARFOD O'R BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWDYD YN
SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD MAWRTH, 23 GORFFENAF
2019**

AELODAU

Y Cynghorydd Mark Pritchard, Cadeirydd
Y Cynghorydd Hugh Jones, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Andrew Atkinson	Y Cynghorydd	David J Griffiths
"	William Baldwin	"	David Kelly
"	David A Bithell	"	Joan Lowe
"	Terry Evans	"	Phil Wynn

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Brian Cameron, Dana Davies, Frank Hemmings, R Alun Jenkins, Tina Mannering, Paul Roberts, Graham Rogers a Robert Walsh

24 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd David Kelly.

25 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI

Atgoffwyd yr Aelodau o'u cyfrifoldeb, dan Baragraff 11 Cod Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw gysylltiad mewn perthynas ag unrhyw un o'r eitemau i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

Eitem 6 ar y Rhaglen – Rhaglen Gyfalaf 2018/19 - 2022/23

Cynghorwyr Brian Cameron, Dana Davies, Frank Hemmings, R Alun Jenkins a Graham Rogers – Cysylltiad Personol sy'n Rhagfarnu – Llywodraethwyr Ysgol. Arhosodd y Cynghorwyr yn y cyfarfod gan hawlio eithriad dan Baragraff 12(2) o God Ymddygiad yr Aelodau, a chymryd rhan yn y drafodaeth wedi hynny.

Y Cynghorydd Dana Davies – Personol – riant i blant sy'n mynychu Ysgol a nodwyd yn yr adroddiad. Arhosodd y Cynghorydd yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth wedi hynny.

Cynghorwyr Dana Davies a Joan Lowe - personol - Aelod o Gyngor Cymuned sy'n derbyn grant y cynnig gofal plant. Arhosodd y Cynghorwyr yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth ac yn achos yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, yn pleidleisio wedi hynny.

Eitem 11 ar y Rhaglen - Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol.

Cynghorydd Andrew Atkinson – Personol – Perchennog busnes glanhau Arhosodd y Cynghorydd yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio wedi hynny.

Cynghorwyr David A Bithell a Joan Lowe – Personol sy'n Rhagfarnu - Llywodraethwr Ysgol. Arhosodd y Cynghorwyr yn y cyfarfod gan hawlio eithriad dan Baragraff 12(2) o God Ymddygiad yr Aelodau, a chymryd rhan yn y drafodaeth wedi hynny.

Cynghorydd Hugh Jones - Personol - Cyfarwyddwr Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol. Arhosodd y Cynghorydd yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio wedi hynny.

CADEIRYDD LLYWYDDOL

Gadawodd y Cadeirydd y Gadair a llywyddodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Hugh Jones, dros yr eitemau nesaf ar y Rhaglen, er mwyn galluogi'r Cadeirydd i gyflwyno Eitemau 5 i 11 ar y Rhaglen yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Arweiniol Trefniadaeth - Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu.

(Y Cynghorydd Hugh Jones yn Cadeirio)

CYLLIDEB REFENIW 2020/22

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Drefniadaeth - Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad (COFI/55/19) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo cynigion Cam 1 cyllideb 2020/22.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol yr adroddiad a chafwyd trafodaeth fanwl. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Pwysigrwydd ymgysylltiad cyhoeddus a'r angen i sicrhau y cedwir at y broses ymgynghori gywir
- Cafwyd eglurhad ar y broses gyllidol y cytunwyd arni yn gynharach yn y flwyddyn
- Pryder bod y broses gyllidol wedi newid gan ganiatáu rhoi rhai cynigion ar waith ar unwaith.
Rhoddodd y swyddogion sicrwydd i'r Aelodau bod y newidiadau a ddisbarthwyd fel Math 1 yn cael eu hargymell ar gyfer eu cymeradwyo er mwyn caniatáu i swyddogion ddechrau eu gweithredu.
- Mynegwyd pryderon am y cynigion i gyflwyno tâl am y biniau gwyrdd a sut y byddai staff yn gallu gweld pa finiau oedd wedi cael eu talu amdanynt.
Cafwyd sicrwydd yn y cyswllt hwnnw.

PENDERFYNWYD –

- (i) **Cefnogi'r ymdriniaeth ar gyfer cyllideb 2020/22.**
- (ii) **Cymeradwyo'r newidiadau i'r gwasanaeth a'r taliadau cysylltiedig sydd wedi'u categoreiddio fel rhai Math 1 ac sy'n gyfanswm o £1,396,000 ar gyfer 2020/21 a £575,000 ar gyfer 2021/22 fel y nodir yn Atodiad 1 i adroddiad COFI/55/19, fel y gall swyddogion ddechrau ar y gwaith o'u gweithredu.**
- (iii) **Cymeradwyo ymchwil/ymgyngori pellach ac ymgysylltu lle bo hynny'n briodol ar gynigion gwasanaeth sydd wedi'u categoreiddio fel rhai Math 2 ac sy'n gyfanswm o £913,000 ar gyfer 2020/21 a £140,000 ar gyfer 2021/22.**
- (iv) **Ymgymryd â gwaith pellach ym mhob Adran / Gwasanaeth yn y Cyngor i nodi toriadau pellach i'w hystyried yn yr Hydref / Gaeaf.**

Rheswm dros y penderfyniadau

Galluogi'r Cyngor i wneud cynnydd wrth ddatblygu ei gyllideb refeniw ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/22.

28 **AMRYWIAD I DREFN Y RHAGLEN**

PENDERFYNWYD - Dwyn eitemau 5-8 ar y Rhaglen ymlaen i'w hystyried ar y cam hwn.

29 **TROSGLWYDDO SWYDDOGAETH GWEINYDDU DYFARNIADAU GRANT CRONFA'R DEGWM**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad (CODI/45/19) yn ceisio cymeradwyaeth i drosglwyddo gweinyddiaeth dyfarniadau grantiau Cronfa'r Degwm yn ardal Wrecsam i'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo trosglwyddo gweinyddiaeth dyfarniad grantiau Cronfa'r Degwm yn ardal Wrecsam i'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, gyda'r cais bod uchafswm y grant i'w ddyfarnu'n cael ei gynyddu i £1,000.

Rheswm dros y penderfyniad

Caniatáu i weithdrefnau rheoli a dyfarnu grantiau Cronfa'r Degwm elwa o drefniadau canoli, gan gadw mewnbwn lleol i'r broses o ddyfarnu grantiau trwy gynrychiolaeth ar y panel sy'n dyfarnu.

30 **RHAGLEN GYFALAF 2018/19-2022/23**

(Nodir datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng Nghofnod 25 uchod)

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Drefniadaeth - Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad (COFI/46/19) i roi gwybod i'r Aelodau am alldro Rhaglen Gyfalaf 2018/19 ac i adolygu Rhaglen Gyfalaf 2019/20-2022/23.

PENDERFYNWYD–

- (i) **Cymeradwyo dyrannu £650,000 i Gynllun Adnewyddu'r Amlogfa yn 2020/21 fel yr amlinellir ym mharagraff 2.4 adroddiad COFI/46/19.**
- (ii) **Nodi'r sefyllfa gyfalaf derfynol ar gyfer 2018/19.**
- (iii) **Cymeradwyo'r rhaglen dreigl ar gyfer 2019/20 hyd 2022/23, fel y mae wedi'i nodi yn atodiadau 2 a 3.**
- (iv) **Bod y rhaglen gyfalaf yn cael ei hadolygu a'i hadrodd i'r Bwrdd Gweithredol nesaf yn Hydref 2019.**

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (i) **Mae'r adroddiad hwn yn dilyn adroddiad monitro cynharach ym mis**

Chwefror yn unol â Rheoliadau Ariannol 3.13 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh fonitro'r Rhaglen Gyfalaf ac adrodd i'r Aelodau arni.

- (ii) Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gydymffurfio â Chod Materion Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf.

31 **SEFYLLFA DERFYNOL RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS 2018/19**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Drefniadaeth - Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad (COFI/44/19) i gyflwyno'r adroddiad Rheoli'r Trysorlys alldro ac adroddiad ar y gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diwedd 31 Mawrth 2019.

PENDERFYNWYD - Nodi adroddiad Rheoli'r Trysorlys alldro a'r gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2018/19.

Rheswm dros y penderfyniad

Cydymffurfio â Chod Materion Ariannol a Chod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd CIPFA.

32 **CYTUNDEB CYLLIDEB GYFUN AR GYFER LLETY CARTREF GOFAL I BOBL HŶN**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Drefniadaeth – Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu a'r Aelod Arweiniol dros Bobl - Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion adroddiad (COFI/61/19) i roi diweddariad ar y camau sy'n cael eu cymryd yn rhanbarthol i sicrhau cydymffurfiaid â'r gofyniad cyfreithiol i sefydlu a chynnal cronfa gyfun ar gyfer swyddogaethau llety cartref gofal ar gyfer pobl hŷn i'w gofalu amdani gan Gyngor Sir Ddinbych am dair blynedd; ac i geisio caniatâd i gymeradwyo a llofnodi ar ran y Cyngor gytundeb cyfreithiol a baratowyd am gyfnod o dair blynedd i adlewyrchu'r trefniadau cytunedig ar gyfer sefydlu, gweinyddu a llywodraethu'r gronfa gyfun.

PENDERFYNWYD–

- (i) Nodi cynnwys yr adroddiad.
- (ii) Nodi'r cynnydd a wnaed yn rhanbarthol i fodloni gofynion Rhan 9 o Ddeddf 2014 sy'n cynnwys gofyniad cyfreithiol i sefydlu cronfa gyfun ranbarthol ar gyfer llety cartref gofal i bobl hŷn.
- (iii) Sefydlu cronfa gyfun heb fod yn rhannu risg gyfer llety cartref gofal i bobl hŷn fel mae'r adroddiad hwn yn ei nodi, gyda Chyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel yr Awdurdod Cynnal, ac i'r trefniadau fod yn weithredol o flwyddyn ariannol 2019/20 ymlaen.
- (iv) Bod y Cyngor yn ffurfio cytundeb cyfreithiol rhwng Bwrdd Iechyd

Prifysgol Betsi Cadwaladr a chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru, i reoli'r trefniadau sefydlu, gweithredu a llywodraethu mewn perthynas â'r gronfa gyfun am gyfnod o 3 blynedd.

Rheswm dros y penderfyniadau

Argymhellir datblygu cronfa gyfun heb fod yn rhannu risg i gynnwys trafodion ariannol er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol.

33

COD YMARFER LLYWODRAETH CYMRU AR GYFLOGAETH FOESEGOL MEWN CADWYNI CYFLENWI

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Bobl - Gwasanaethau Ieuenctid a Gwrth-dlodi adroddiad (COFI/4919) i roi gwybodaeth ar fabwysiad a gweithrediad y Cyngor o God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi, i geisio cymeradwyaeth ar gyfer Datganiad Caethwasiaeth Modern y Cyngor cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac i roi diweddariad ar y cynnydd a wnaed hyd yma ar weithrediad yr ymrwymadau yn y Cod Ymarfer.

PENDERFYNWYD—

- (i) Cymeradwyo datganiad Caethwasiaeth Modern y Cyngor fel y mae wedi'i amlinellu yn Atodiad 1 i adroddiad COFI/49/19.
- (ii) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth weithredu ymrwymadau'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 2.
- (iii) Nodi mai'r Cynghorydd Andrew Atkinson yw'r Cefnogwr Gwrth-gaethwasiaeth a Chyflogaeth Foesebol.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (i) Mae llunio Datganiad Caethwasiaeth Modern y Cyngor a mabwysiadu'r Cod Ymarfer yn dangos ymrwymiad clir i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru, gan sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi sector cyhoeddus Cymru'n cael eu cyflogi mewn modd teg a moesebol.
- (ii) Mae'r Datganiad Caethwasiaeth Modern yn dangos y camau a gymerwyd/gynlluniwyd i sicrhau nad oes caethwasiaeth a masnachu pobl yn y Cyngor na'i gadwyni cyflenwi.

34

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD - Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod, tra bod yr eitem a ganlyn yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol, pe baent yn bresennol, y byddai'r wybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 15 Rhan 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

CWMNI MASNACHU'R AWDURDOD LLEOL

(Nodir datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng Nghofnod 25 uchod)

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Rhanddeiliaid adroddiad (COFI/57/19) yn rhoi gwybodaeth am Gwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol.

PENDERFYNWYD–

- (i) Cymeradwyo Opsiwn C fel mae wedi'i nodi yn adroddiad COFI/57/19.**
- (ii) Gweithredu'r newid o 1 Ionawr 2020 ymlaen.**
- (iii) Gwneud y Cwmni Masnachu (WCSL) yn anweithredol.**

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (i) Cyflwynwyd yr opsiynau sydd wedi'u cynnig a'u nodi yn yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Rhanddeiliaid i'w trafod a'u hadolygu, a chefnogwyd cynnig y dylid gweithredu Opsiwn C.**
- (ii) Byddai gweithredu Opsiwn C yn rhoi rheolaeth lwyr i CBSW ac yn caniatáu cynnal darpariaeth yr holl wasanaethau yn unol â holl ofynion gweithrediadau a chynllunio ariannol y Cyngor.**
- (iii) Byddai Opsiwn C yn caniatáu gweithredu'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau ar gyfer staff ar draws y Cyngor a (gyda lefel uchel o gefnogaeth gan wasanaethau Cyreithiol ac AD Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ac yn sicrhau trosglwyddiad esmwyth a di-dor.**
- (iv) Bydd gwneud y cwmni yn anweithredol yn darparu cyfrwng y gall y Cyngor fasnachu drwyddo mewn perthynas â gweithgareddau eraill yn y dyfodol.**
- (v) Mae anawsterau'n deillio o gost pensiynau a threth gorfforaethol wedi bod yn sylfaenol ym mhenderfyniad WCSL i gefnogi'r camau a gynigiwyd bod y cwmni'n rhoi'r gorau i fasnachu a bod gwasanaeth glanhau'r Cyngor yn dod yn un "mewnol" eto.**
- (vi) Mae'r Cyngor a'r Cwmni'n cytuno mai dyma'r argymhelliad priodol mewn perthynas â dyfodol y cwmni.**

Y Cynghorydd Mark Pritchard
Cadeirydd